S4/C

Cynllun Corfforaethol 2008-2009
Targedau 2008

S4C, Parc T□ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU

Amcanion Corfforaethol 2008-2009

Ein hamcan craidd yw cyflwyno gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr ac o safon uchel sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd Cymru.

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn rhannu'r gweithgareddau sy'n cynnal yr amcan hwn o dan ddau is-amcan:

1. *Gweithredu'r Strategaeth Rhaglenni (2004-2009)*

2. *Gweithredu o fewn ein fframwaith statudol a chyhoeddus.*

Amcan 1

Gweithredu'r Strategaeth Rhaglenni

Targed
Amcan 1 (1) (i) Cyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni 2008. (ii) Cyhoeddi Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2007. (iii) Cynnal adolygiad blynyddol y Strategaeth Rhaglenni 2004-2009. (iv) Cyhoeddi Strategaeth S4C ar gyfer cyfnod 2009 ymlaen.
Amcan 1 (2) Gweithredu Datganiad Polisi Rhaglenni 2008 a neilltuo £78 miliwn i gyllideb comisiynu. Cydymffurfio gyda thargedau'r Ddeddf Gyfathrebiadau ac Ofcom: (i) O leiaf 25% o amser darlledu i'w roi i gynyrchiadau o'r sector annibynnol. (ii) 90% o Raglenni gwreiddiol[1] (oriau brig)[2]. (iii) 80% o Raglenni gwreiddiol (holl oriau). (iv) 60 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (holl oriau). (v) 30 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (oriau brig). (vi) 200 awr y flwyddyn o Newyddion (holl oriau). (vii) 150 awr y flwyddyn o Newyddion (oriau brig). (viii) Un rhaglen newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig. (ix) O leiaf 35 awr o raglenni Cymraeg yn gydamserol ar wasanaethau S4C ac S4C Digidol bob wythnos. (x) 140 awr y flwyddyn o raglenni plant gwreiddiol yn ystod y flwyddyn.
Amcan 1 (3) Gweithredu o fewn y Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach a chydymffurfio gyda'r targedau sydd wedi eu cymeradwyo gan Ofcom.

[1] Gwreiddiol = Rhaglenni a gomisiynir gan neu a gynhyrchir ar gyfer S4C ag yn waith Ewropeaidd (directive TWF), bod yn ddarllediadau gwreiddiol neu yn ail ddangosiadau. Mae'r cyfanswm yn cynnwys yr oriau a gynhyrchir gan y BBC.

[2] (oriau brig = 18.30 – 22.00)

Amcan 1 (4)

Gweithredu o fewn fframwaith y Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C i sicrhau bod cyfraniad statudol y BBC yn gyson â'r Strategaeth Rhaglenni.

Amcan 1 (5)

(i) Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfer y gwasanaethau Cymraeg o leiaf 700,000 ar gyfartaledd.

(ii) Anelu at ddenu cyrhaeddiad o dros 100,000 o gynulleidfa ar 20 rhaglen Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

(iii) Cynyddu ein cyrhaeddiad flwyddyn ar flwyddyn drwy ddarparu cynnwys ar lwyfannau priodol.

(iv) Sicrhau bod mesuriadau priodol i fesur gwylio ar draws bob llwyfan.

(v) Cynyddu canran gwylwyr o dan 45 oed yn yr oriau brig flwyddyn ar flwyddyn.

Amcan 1 (6)

Cwrdd â thargedau Ofcom ar is-deitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo yn ystod holl oriau S4C Digidol.

	2008	**2009**	**2010**
Is deitlo (Saesneg):	73%	75%	80%
Arwyddo:	3%	4%	5%
Sain ddisgrifio:	10%	10%	10%

Amcan 1 (7)

Rydym yn anelu i gynnig 10 awr yr wythnos o oriau gwreiddiol gydag isdeitlau 889.

Amcan 1 (8)

Bydd rhaglenni Channel 4 yn cael eu hamserlenni yn unol â gofynion masnachol.

Amcan 1 (9)

Adolygu yn gyson ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill a newydd yn y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt.

Amcan 1 (10)

Cyfrannu at y cynlluniau ar gyfer y trosglwyddiad i ddigidol gan sicrhau trefniadau priodol i gyflenwi ein gwasanaethau ar ôl y trosglwyddiad i ddigidol.

Amcan 1 (11)

Adolygu dulliau archifo digidol a throsglwyddo deunydd yn allanol lle'n briodol.

Amcan 1 (12)

Adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Rhaglenni a sicrhau rhagoriaeth yn ein cynlluniau cyfathrebu.

Amcan 1 (13)

Sicrhau bod Gwifren Gwylwyr S4C ar gael trwy gydol y flwyddyn o leiaf o 09.00 tan 22.00 i

dderbyn sylwadau, cwynion, ac ymholiadau gan ein gwylwyr ar **0870 6004141** neu gwifren@s4c.co.uk
Amcan 1 (14) Sicrhau bod systemau mewn lle i sicrhau bod y gwasanaethau yn cydymffurfio gyda'r gyfraith a chodau perthnasol.
Amcan 1 (15) Sicrhau trefniadau addas i godi lefel sgiliau staff S4C ac yn y diwydiant. Cyflawni rhagoriaeth drwy gyfrannu at adnabod blaenoriaethau hyfforddi a buddsoddi mewn darpariaeth hyfforddiant.
Amcan 1 (16) Gweithredu'r Polisi Ysgoloriaethau.
Amcan 1 (17) (i) Darparu gwasanaeth teledu cyflawn, di-dor, o bob agwedd ar ddarlledu S4C ar analog ac ar DTT, lloeren a chebl. (ii) Dim llai na 98% o boblogaeth Cymru yn gallu derbyn S4C ar S4C analog. (iii) Cynnal cynnig technegol gwasanaethau S4C yn unol ag ymarfer gorau y diwydiant.

Amcan 2

(i) Yr Awdurdod a'r swyddogion i weithredu o fewn ein fframwaith statudol a chyhoeddus.

Targed
Amcan 2 (1) Gweithredu o fewn y fframwaith sydd wedi ei gosod allan yn y ddogfen "Rôl yr Awdurdod".
Amcan 2 (2) Gweithredu cynlluniau blynyddol yr Awdurdod, Pwyllgorau'r Awdurdod a Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C.
Amcan 2 (3) Gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol.
Amcan 2 (4) Meithrin perthynas agored, atebol ac adeiladol gyda'n gwylwyr.
Amcan 2 (5) Sicrhau bod archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal.
Amcan 2 (6) Gosod o flaen y Senedd a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol blynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.
Amcan 2 (7) Adolygu Cynllun Corfforaethol 2008.
Amcan 2 (8) Sicrhau ein bod yn gweithio o fewn ein polisïau. Adolygu ac adnewyddu polisïau S4C yn ôl y gofyn. Cynnig lle gwaith diogel, a chyfleoedd cyfartal i bawb. Mabwysiadu Polisi Gwyrdd.
Amcan 2 (9) Lle'n briodol ymateb i Adolygiadau Ofcom, y Llywodraeth, y Comisiwn Ewropeaidd, y Cynulliad ac eraill.
Amcan 2 (10) Gweithredu prosesau tendr i hybu cystadleuaeth. Cynnal rhestr o dendrau.
Amcan 2 (11) Derbyn difidend oddi wrth S4C Masnachol.
Amcan 2 (12) Gweithredu o fewn fframwaith ein Cod Cwynion.

Amcan 2 (13) Cymeradwyo cyllideb 10 mlynedd diwygiedig.
Amcan 2 (14) Llai na 4.5% o holl wariant i'w wario ar orbenion.
Amcan 2 (15) Cynnal Cofrestr Risg yn unol â'r Polisi Risg. Cyflwyno a Monitro'r Cofrestr Risg a Chynllun Cynnal Busnes yn chwarterol.